

COMISIWN Y GYFRAITH

MATERION TECHNEGOL YN Y GYFRAITH

ELUSENNAU: YMGYNGHORIAD ATODOL

CRYNODEB

CYFLWYNIAD

1. Cafodd ein hymgyngoriad ar Faterion Technegol yn y Gyfraith Elusennau ei gynnal rhwng Mawrth a Gorffennaf 2015.¹ Ers i'r ymgynghoriad ddod i ben, rydym wedi dadansoddi ymatebion, datblygu polisïau ar gyfer y rhan fwyaf o'r materion yn y prosiect, ac wedi dechrau paratoi Bil drafft.
2. O'r ymgynghoriad, roedd dau fater yn codi nad oeddem ni wedi gwahodd barn yr ymgynghoreion yn benodol arnynt sef materion y byddem ni'n falch o gael barn yr ymgynghoreion arnynt cyn penderfynu ar ein hargymhellion terfynol. Mae'r cyntaf yn ymwneud â newid dibenion elusen, a'r ail â statws corfforaeth ymddiriedolaethol.

NEWID DIBENION ELUSEN

3. Yn ein papur ymgynghori yn 2015, fe wnaethom ni edrych ar y ffyrdd y gallai elusennau newid eu dibenion a diwygio eu dogfennau llywodraethu. I ymateb i hynny, awgrymodd y rhan fwyaf o'r ymgynghoreion y dylid cysoni'r pwerau diwygio rhwng (a) elusennau corfforaethol² a (b) elusennau anghorfforedig.³ Yn yr ymgynghoriad atodol hwn, gofynnwn pa mor agos y dylid cysoni'r pwerau diwygio pan fo'r newid yn un i ddibenion elusen.
4. Efallai y bydd elusennau eisiau newid eu dibenion am amryw o resymau; gyda threigl amser, bydd anghenion newydd a digwyddiadau annisgwyl yn codi gan olygu bod angen newid er mwyn sicrhau bod elusen yn parhau i fod yn effeithiol.⁴ Mae'r gyfraith yn rhoi'r pŵer i elusennau corfforaethol newid eu dibenion drwy benderfyniad gan eu haelodau mewn cyfarfod cyffredinol,⁵ ar yr amod bod y Comisiwn Elusennau'n cytuno â'r newid. Nid oes unrhyw bŵer tebyg gan elusennau anghorfforedig. Gall elusennau anghorfforedig newid eu dibenion gan ddefnyddio unrhyw bwerau newid ffurfiol yn eu dogfennau llywodraethu, neu os ydynt yn gymwys fel elusennau bach, gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 275 o Ddeddf Elusennau 2011.⁶ Fodd bynnag, os nad yw'r pwerau hynny ar gael, rhaid i'r ymddiriedolwyr geisio "cynllun cy-près" gan y Comisiwn Elusennau.⁷ Ni ellir gwneud cynlluniau cy-près ond mewn amgylchiadau

¹ Ewch i <http://www.lawcom.gov.uk/project/charity-law-technical-issues-in-charity-law/>.

² Cwmnïau elusennol a sefydliadau corfforedig elusennol, sydd â phersonoliaeth gyfreithiol ar wahân i'w ymddiriedolwyr neu eu haelodau.

³ Elusennau sydd heb bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân, sef ymddiriedolaethau a chymdeithasau anghorfforedig.

⁴ Er enghraifft, gall dibenion elusen a sefydlwyd i ofalu am bobl ag anableddau ei gwneud yn ofynnol i'r elusen ddarparu sefydliadau lle gellir cartrefu buddiolwyr. Caiff yr ymddiriedolwyr ystyried y dylid diwygio ei ddibenion fel y gall yr elusen ddarparu cymorth i fuddiolwyr sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain.

⁵ Ni ellir diwygio rhai darpariaethau sydd wedi ymwreiddio ond drwy ddilyn yr amodau a bennwyd neu drwy gytundeb unfrydol yr aelodau.

⁶ Mae'r pŵer ar gael os oes gan yr elusen incwm blynyddol o £10,000 neu lai ac os nad yw'n dal "tir dynodedig", sef tir sy'n cael ei ddal ar gyfer ymddiriedolaethau ar yr amod fod yn rhaid ei ddefnyddio i ddibenion yr elusen.

⁷ Ystyr "cy-près" yw "mor agos â phosibl". Mae cynllun cy-près yn caniatáu i arian gael ei gymhwyso i ddibenion elusennol sy'n debyg i'r dibenion gwreiddiol.

cyfyngedig a ragnodir gan adran 62 o Ddeddf Elusennau 2011 (“yr achlysuron cy-près”).⁸

5. Yn yr ymgynghoriad atodol hwn, rydym yn cynnig y dylai elusennau anghorfforedig, fel elusennau corfforaethol, gael pŵer i newid eu dibenion – gyda chytundeb y Comisiwn Elusennau – heb orfod sefydlu un o'r achlysuron cy-près. Awn ymlaen i gynnig cadw'r ffactorau presennol y mae'n rhaid i'r Comisiwn Elusennau eu hystyried pan fo'n penderfynu a yw am roi caniatâd ai peidio, a gwahodd barn ar eu hintegreiddio yn y gyfundrefn newydd. Gofynnwn hefyd a ddylai'r ystyriaethau hynny fod yn berthnasol pan fo'r Comisiwn yn penderfynu a yw am gytuno i elusennau corfforaethol newid dibenion.

STATWS CORFFORAETH YMDDIRIEDOLAETHOL

6. Yn ein papur ymgynghori yn 2015, fe wnaethom ni wneud cynigion gyda'r nod o oresgyn rhai rhwystrau cyfreithiol i elusennau sy'n dymuno ymgorffori (sef newid o strwythur cyfreithiol anghorfforedig i un corfforedig) ac i gyfuno ag elusennau eraill. I ymateb i hynny, esboniodd rhai ymgynghoreion fod anawsterau arbennig yn codi pan fo angen i elusennau gael statws cyfreithiol “corfforaeth ymddiriedolaethol” ar ôl ymgynghori neu gyfuno. Rhaid i elusennau corfforaethol sy'n dal tir ar gyfer ymddiriedolaeth elusennol gael eu gwneud yn gorfforaethau ymddiriedolaethol os ydynt i fod i fedru gwerthu'r tir.⁹
7. Yn gyffredinol, bydd elusennau'n ceisio statws corfforaeth ymddiriedolaethol mewn un o dair ffordd: (1) drwy wneud cais i'r Arglwydd Ganghellor; (2) drwy ofyn am gynllun gweinyddol gan y Comisiwn Elusennau; neu (3) drwy lwybr cymhleth sy'n golygu gwneud datganiad breinio dan adran 310 o Ddeddf Elusennau 2011.¹⁰ Mae'r gweithdrefnau hyn yn gymhleth, yn hirfaith ac yn gostus, ac maent yn rhwystr i elusennau sy'n dymuno ymgorffori neu gyfuno heb unrhyw fanteision amlwg. Yn yr ymgynghoriad atodol hwn, cynigiwn y dylai statws corfforaeth ymddiriedolaethol fod ar gael yn ehangach i elusennau corfforaethol.

YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

8. Mae'r papur ymgynghori atodol, y crynodeb hwn a ffurflen ymateb ddewisol ar gael ar ein gwefan yn www.lawcom.gov.uk (dan “Find a Project”, chwiliwch am “charity law”). Gwahoddwn ymatebion i'r ymgynghoriad erbyn 31 Hydref 2016.
9. Gellir anfon ymatebion i'n cwestiynau a'n cynigion, i bob un neu i unrhyw rai ohonynt:
ar e-bost i propertyandtrust@lawcommission.gsi.gov.uk; neu
drwy'r post at Daniel Robinson, Law Commission, 1st Floor, Tower, Post Point 1.53, 52 Queen Anne's Gate, Llundain SW1H 9AG.
10. I gael rhagor o wybodaeth am y modd y mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal ei ymgynghoriadau, a'n polisi ar gyfrinachedd ymatebion ymgynghoreion, ewch i dudalen ii o'r papur ymgynghori atodol.

1 Medi 2016

⁸ Er enghraifft, os yw diben gwreiddiol yr elusen, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, wedi cael ei gyflawni.

⁹ Os nad corfforaeth ymddiriedolaethol yw ymddiriedolwr unigol, mae'n ofynnol i ddau ymddiriedolwr o leiaf roi derbynneb ddilys am elw gwerthu'r tir a oedd yn cael ei ddal ar gyfer ymddiriedolaeth.

¹⁰ Pan fo gwaddol parhaol yn cael ei drosglwyddo i sefydliad corfforedig elusennol, a bod y trosglwyddiad yn cael ei wneud gan ddefnyddio datganiad breinio adran 310, bydd y sefydliad corfforedig elusennol yn cael ei drin fel corfforaeth ymddiriedolaethol fel mater o drefn.